**CABINET**
**18 MEHEFIN 2019**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 18 Mehefin 2019.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Derek Butler, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu, ac Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**YMDDIHEURIADAU:**
Dim.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge a Patrick Heesom

**11. DATGAN CYSYLLTIAD**

Fe wnaeth y Cynghorwyr Banks, Jones a Thomas ddatgan cysylltiadau personol ag eitem rhif 5 ar y rhaglen - Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Dewisol – Canlyniad yr Ymgynghoriad.

Datganodd y Cynghorydd Mullin gysylltiad personol ag eitem rhif 13 ar yr agenda - NEWydd Catering and Cleaning Ltd – Adolygiad Cynnydd a Chynllun Busnes Diwygiedig ar gyfer 2019-2022.

Datganodd y Cynghorydd Banks gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu yn eitem rhif 16 ar y rhaglen – Cynllun Busnes Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru 2019/2048.

Bu i'r Cynghorwyr Banks a Butler ddatgan cysylltiadau personol o ran eitem 17 ar yr agenda – Model Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd.

**12. COFNODION**

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2019 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

Talodd pob Aelod o'r Cabinet deyrnged a dangos eu gwerthfawrogiad i'r holl staff oedd wedi gweithio yn ddiflino yr wythnos cynt yn ystod y tywydd gwael i sicrhau

bod gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu a bod y rhai mwyaf agored i niwed yn y Sir yn dal i dderbyn gofal.

**13. CYNLLUN Y CYNGOR 2019/20**

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts Gynllun y Cyngor – Rhan 1 sef egwyddorion arweiniol gweddill cyfnod y Cyngor. Diolchodd i’r holl swyddogion fu’n ymwneud â chynhyrchu'r Cynllun.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod y Cynllun yn cael ei adrodd i’r Cyngor Sir bob mis Mehefin er mwyn ei fabwysiadu – mae’n gynllun pum mlynedd y mae'n rhaid ei adolygu'n flynyddol.

Roedd Gweithdai wedi eu cynnal i Aelodau ac roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol wedi rhoi adborth ar strwythur, fformat a chynnwys y Cynllun drafft. Roedd y prif ganlyniadau o weithdai’r Aelodau wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad. Roedd awgrymiadau eraill mwy penodol wedi eu gwneud er mwyn hysbysu cynnwys y Cynllun ac o gytuno arnynt mewn gweithdai neu drafodaethau, roeddynt wedi eu cynnwys yn y Cynllun.

Eglurodd y Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu bod seithfed thema newydd wedi ei ychwanegu at y Cynllun - *'Cyngor Diogel a Glân’.*

Cyhoeddwyd Cynllun y Cyngor mewn dwy ddogfen. Mae rhan un yn gosod y bwriad. Byddai rhan dau yn gosod y mesuryddion perfformiad, y targedau a’r cerrig milltir y byddai cyflawniadau yn cael eu mesur a’u gwerthuso'n eu herbyn. Byddai rhan dau yn cael ei gyflwyno fis Gorffennaf.

Croesawodd y Cynghorydd Thomas amseru'r gweithdai oedd wedi eu cynnal yn gynharach yn y broses a fformat y ddogfen gan ei bod yn teimlo y byddai’r cyhoedd yn ei chael yn haws ei deall.

Soniodd y Cynghorwyr Banks a Bithell am bwysigrwydd y seithfed thema newydd, a groesawyd. Ar ‘Cyngor Sy’n Gwasanaethu', roedd y Cynghorydd Jones yn falch o weld bod ‘Mesurau i gefnogi a chynnal amgylchedd gweithio diogel a iach’.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Rhan 1 Cynllun y Cyngor 2019/20 yn cael ei argymell i’r Cyngor ei fabwysiadu.

**14. ADOLYGIAD POLISI CLUDIANT DEWISOL– CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad oedd yn crynhoi canlyniad yr ymgynghoriad ar feysydd hawl buddion a darpariaeth ôl 16 polisi cludiant coleg ac ysgol dewisol, a gynhaliwyd fis Rhagfyr 2018.

Amlinellwyd manylion llawn yn yr adroddiad; roedd yr adroddiad hefyd wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid ac roedd yr

adborth o'r cyfarfod hwnnw hefyd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Darllenodd y Cynghorydd Roberts y datganiad canlynol:

"Aelodau, rwy'n credu bod y penderfyniad sy'n ein hwynebu yn hynod o heriol. Fel Cyngor, rydyn ni yn falch iawn ein bod wedi sicrhau bod addysg ôl-16 ar gael i bawb ac o gael y niferoedd isaf o bobl sydd 'Ddim mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant' yng Nghymru. Er hynny, rydyn ni'n gwybod, fel awdurdod lleol ac yn dilyn 10 mlynedd o doriadau, fod ein gwariant net ni ar gludiant yn llawer uwch nag awdurdodau lleol eraill, yn cynnwys cludiant i ysgolion a cholegau. Mae'n rhaid i ni gydnabod mai canlyniadau'r ymgynghoriad oedd galwad am beidio â newid y polisi sydd gennym ar hyn o bryd gan fod pobl yn amlwg yn amharod i dalu mwy am wasanaethau lleol os oes posib' osgoi hynny.

Yn anffodus, nid yw'r ffasiwn beth yn â chludiant am ddim i ysgol neu goleg yn bod – mae am ddim i'r defnyddiwr yn golygu fod yn rhaid i'r trethdalwr cyffredin dalu amdano. Rydyn ni'n deall bod cludiant ysgol y mae angen i ni dalu amdano a'r gwahanol eithriadau o ran polisi cludiant yn ymarferol sydd wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd. Yn anffodus, mae cludiant ôl-16 ymysg y gwasanaethau am ddim hynny, sydd wedi eu gwaredu o sawl awdurdod lleol arall, nad ydynt yn gynaliadwy bellach. Ar hyn o bryd mae'n costio oddeutu £750,000 fesul blwyddyn academaidd i'w gynnal.

Rydyn ni'n ddiolchgar i'r Penaethiaid a chynrychiolwyr y Colegau a siaradodd ar ran Ffederasiwn y Penaethiaid Uwchradd, a'r colegau am gydnabod yr heriau ariannol rydyn ni'n eu hwynebu fel Cyngor, ac am gefnogi cyflwyno tâl, er yn anfodlon, gyda rhai mesurau i leihau'r effaith. Rydyn ni hefyd yn diolchgar i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid am y drafodaeth a gawsant a'r penderfyniadau a wnaethant a oedd, eto, yn gweld y byddai'n rhaid cyflwyno tâl gyda mesurau i leihau'r effaith. Mae hyn yn golygu bod angen i ni wneud penderfyniad heddiw. Hoffwn gynnig y canlynol felly:

- O fis Medi 2020 ymlaen, dylid gosod y tâl bob tymor am gludiant ôl-16 ar uchafswm o £150 y tymor;
- Dylai'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dderbyn cludiant am ddim i'r ysgol neu'r coleg. Dylid talu am y mesur hwn o gronfeydd y Cyngor – nid o'r tâl am gludiant – fel budd dewisol;
- Yn ystod y flwyddyn rhwng rŵan a chyflwyno'r tâl, dylai'r Cyngor archwilio'r posibilrwydd o weithredu cronfa galedi i gefnogi teuluoedd lle mae'r tâl yn rhwystro myfyriwr rhag derbyn addysg oherwydd amgylchiadau, gan nodi hawl parhad i gludiant am ddim o dan y maen prawf lle mae'r unigolyn yn derbyn prydau ysgol am ddim; ac
- Yn ystod y flwyddyn rhwng rŵan a chyflwyno'r tâl, fel mae'r grŵp Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i awgrymu, dylai'r Cyngor edrych ar bosibilrwydd ffurf o gerdyn talu ymlaen llaw fel 'Oyster' a fyddai'n caniatáu i breswylwyr nad ydynt yn gallu talu'r ffi bob tymor roi arian ar eu cerdyn yn rheolaidd.

Byddwn yn gobeithio y gallem weithio gyda Choleg Cambria yn ystod y flwyddyn cyn cyflwyno'r costau er mwyn cynnal eu siâr o gostau cludiant. Hoffwn gynnig hefyd bod ôl-16 yn cael ei ddiffinio fel blynyddoedd 12 ac 13 o safbwynt blynyddoedd ysgolion, a bod hyn ond yn cael ei estyn mewn amgylchiadau eithriadol."

Cytunodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) nad oedd hwn yn benderfyniad hawdd i Aelodau ond nad oedd y *status quo* yn gynaliadwy yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Pwysleisiodd bwysigrwydd bod dysgwyr yn cael eu trin yn gyfartal ac ategodd y cynigion bod plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn cludiant am ddim i'r ysgol neu'r coleg.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhaid i'r Cyngor barhau i dalu am elfen ddewisol ar gyfer hawl cludiant am ddim ac ar gyfer unrhyw gronfa galedi. Byddai'n rhaid defnyddio unrhyw gronfa o'r fath yn gyson a byddai'n heriol i'r Awdurdod ei gweinyddu. Dywedodd os oedd Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod dysgwyr â mynediad at addysg yna dylai cludiant gael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru o dan offeryn statudol.

Roedd yr holl Aelodau yn cytuno â chynigion y Cynghorydd Roberts, ac yn cydnabod fod hwn yn benderfyniad oedd ei angen oherwydd yr hinsawdd ariannol heriol iawn roedd y Cyngor ynddo, ac wedi bod ynddo ers nifer o flynyddoedd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod:

I. O fis Medi 2020 ymlaen, dylid gosod y tâl bob tymor am gludiant ôl-16 ar uchafswm o £150 y tymor;

II. Dylai'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dderbyn cludiant am ddim i'r ysgol neu'r coleg. Dylid talu am y mesur hwn o gronfeydd y Cyngor – nid o'r tâl am gludiant – fel budd dewisol;

III. Yn ystod y flwyddyn rhwng rŵan a chyflwyno'r tâl, dylai'r Cyngor edrych a fyddai modd gweithredu cronfa galedi i gefnogi teuluoedd lle mae'r tâl yn rhwystro myfyriwr rhag derbyn addysg oherwydd amgylchiadau, gan nodi parhad yr hawl i gludiant am ddim o dan y maen prawf lle mae'r unigolyn yn derbyn prydau ysgol am ddim;

IV. Yn ystod y flwyddyn rhwng rŵan a chyflwyno'r tâl, fel mae'r grŵp Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i awgrymu, dylai'r Cyngor edrych ar bosibilrwydd ffurf o gerdyn talu ymlaen llaw fel 'Oyster' a fyddai'n caniatáu i breswylwyr nad ydynt yn gallu talu'r ffi bob tymor roi arian ar eu cerdyn yn rheolaidd;

V. Bod ôl-16 yn cael ei ddiffinio fel blynyddoedd 12 ac 13 o safbwynt blynyddoedd ysgolion, a bod hyn ond yn cael ei estyn mewn amgylchiadau eithriadol; a

(b) Bod trafodaethau yn cael eu hail agor gyda Choleg Cambria ar y lefel o gost a ail godir ar gyfer y gwasanaeth cludiant dewisol.

## 15. GWASANAETH TELEDU CYLCH CAEEDIG Y CYNGOR A GWASANAETH AR Y CYD Â WRECSAM

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac eglurodd y gallai problemau ynglŷn â theledu cylch caeedig fod yn emosiynol. Yn gyffredinol roedd y cyhoedd yn cael cysur o'r camerâu, fodd bynnag roedd cynni ariannol

wedi gorfodi rhai awdurdodau lleol i ystyried rôl a chyllido systemau cylch cyfyng o ddifrif.

Roedd yr adroddiad yn nodi nifer o opsiynau o ran gosod teledu cylch caeedig . Roedd y posibilrwydd o ail-leoli'r gwasanaeth i Wrecsam wedi cael ei harchwilio ers peth amser. Byddai'r dewis hwn yn darparu gwasanaeth teledu cylch caeedig ar y cyd fyddai'n cael ei reoli gan Wrecsam, gyda Sir y Fflint yn dal yn gyfrifol am gostau ffibr a chynnal a thrwsio camerâu.

Mae'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yn credu y bydd y dewis i uno gwasanaethau'n rhoi'r gwytnwch angenrheidiol i'r partneriaid ac yn cynorthwyo'r ddwy ochr i reoli costau'n fwy effeithiol.

Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi cael y mwyaf o fudd o'r gwasanaeth er mai nhw sydd wedi cyfrannu leiaf yn ariannol. Rhaid mynd i'r afael â hyn.

Roedd Aelodau'n croesawu'r cynigion oedd yn arddangos enghraifft dda o gydweithio gydag awdurdod cyfagos ac yn cyd-fynd â'r thema '*Cymunedau Mwy Diogel*' yng Nghynllun y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Cefnogi'r broses o uno swyddogaeth monitro teledu cylch caeedig gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## 16. ASESIAD O DDIGONOLRWYDD GOFAL PLANT

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad oedd yn rhoi trosolwg o Adroddiad Cynnydd Blynyddol sydd wedi'i lunio i asesu cynnydd ochr yn ochr â'r camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir sydd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Roedd yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn nodi'r camau gweithredu / cerrig milltir oedd wedi eu cyflawni yn ystod 2018/19 er mwyn ymateb i'r bylchau a'r meysydd i'w datblygu, y manylir yn llawn amdanynt yn yr adroddiad. Roedd hefyd yn nodi cryfderau craidd gan gynnwys asesiad bod:

- Gofal plant mewn lleoliad da ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o rieni;
- Mae gofal plant yn ddibynadwy yn gyffredinol; ac
- Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu bod gofal plant o ansawdd da.

Eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant nesaf i'w gynnal cyn 2022 a bod gwaith eisoes yn cael ei wneud i wella cyfranogiad darparwyr a rheini ac adborth yn yr asesiad er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r materion i wella'r asesiad o ran galw, digonolrwydd, a meysydd i'w datblygu.

Diolchodd y Cynghorydd Jones i'r tîm am eu gwaith yn y maes hwn, lle'r oedd plant yn derbyn gofal o'u geni hyd at pan fyddent yn mynd i'r ysgol gynradd. Fe wnaeth hefyd gydnabod datblygiad y gronfa ddata a ddefnyddir oedd wedi ei

chynllunio gan y tîm yr oedd awdurdodau lleol eraill bellach yn ei cheisio. Roedd Aelodau'n cytuno gyda sylwadau'r Aelod Cabinet a dywedwyd bod Sir y Fflint yn cydnabod pwysigrwydd gofal o'r fath ac wedi dod yn arweinydd marchnad yn y maes.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi effeithiolrwydd ymateb strategol y Cyngor i sicrhau gofal plant digonol a chynaliadwy o safon uchel o fewn y sir sy'n ymateb i anghenion plant a'u teuluoedd; a

(b) Bydd y gwaith parhaus a'r ymrwymiad i gwblhau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant pob pum mlynedd a'r Adroddiad Cynnydd blynyddol yn cael ei gefnogi.

## 17. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn nodi'r daith tuag at welliant ac yn gwerthuso perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau i bobl oedd yn hyrwyddo eu lles ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol.

Roedd y fformat yn agos at y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ac yn arddangos perfformiad y Cyngor wrth fodloni canlyniadau lles pobl Sir y Fflint. Roedd pob blaenoriaeth gwella yn dod o dan un o'r chwe Safon Ansawdd Cenedlaethol y manylir amdanynt yn yr adroddiad.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) y byddai'r Adroddiad yn ffurfio rhan bwysig o werthusiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Roedd y gwerthusiad hefyd yn hysbysu asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyngor Sir y Fflint fel rhan o'r adroddiad gwella blynyddol.

Diolchodd y Prif Swyddog i'r Cabinet am y gefnogaeth a dderbyniwyd ar gyfer prosiectau cyfalaf sylweddol yn y sector gofal y gallai'r Cyngor fod yn falch ohonynt.

**PENDERFYNWYD:**

Yn dilyn adolygiad, y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gymeradwyo cyn belled ei fod yn darparu cofnod cywir a chlir o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant yn Sir y Fflint.

## 18. ADOLYGU'R POLISI ADENNILL DYLED CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth i Bolisi Adennill Dyled Corfforaethol wedi'i adnewyddu, sef dogfen bolisi unigol gyda gweithdrefnau a rheoliadau sefydledig ar gyfer casglu Trethi Cyngor, Trethi Busnes, Mân Ddyledion, Rhenti Tai a gordaliadau Budd-Dal Tai.

Dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) bod y polisi diwygiedig yn ystyried newidiadau sy'n ymwneud yn bennaf â:

- Diwygio trefniadau beilïau a chyflwyno Rheoliadau newydd;
- Tynnu traddodeb fel sancsiwn am beidio â thalu Treth y Cyngor;
- Arferion gwaith mewnol diwygiedig i gasglu mân ddyledion yn cynnwys datblygu proses uwchgyfeirio fwy cadarn ar gyfer anfonebau y mae dadlau yn eu cylch;
- Newidiadau i isafswm y trothwy ariannol wrth gymryd camau Methdaliad; ac
- Arferion gweithio diwygiedig ar gyfer adfer rhenti tai heb eu talu.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y gallai penderfyniad Llywodraeth Cymru i waredu camau traddodi arwain at golli mwy o Dreth Cyngor yn y dyfodol. Fel cyfiawnhad dros waredu traddodeb, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at y ffaith bod Llywodraeth yr Alban wedi gwaredu traddodeb ac er hynny, bod cyfraddau casglu yn yr Alban yn dal yn debyg i'r cyfraddau yng Nghymru. Y gyfradd casglu Treth Cyngor cyfartalog yn yr Alban ar gyfer 2017/18 oedd 96.0% o'i gymharu â chyfartaledd o 97.4% ar gyfer Cymru a 98.2% ar gyfer Sir y Fflint.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Polisi Adennill Dyled Corfforaethol, yn cynnwys y diwygiadau, yn cael ei ail gymeradwyo ar gyfer casglu Mân Ddyledion, Treth y Cyngor, Ardrethi Busnes, Rhenti Tai a gordaliadau Budd-dal Tai.

## 19. FFIOEDD GWRESOGI ARDALOEDD CYMUNEDOL 2019/20

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad oedd yn cynnig ffioedd newydd diwygiedig ar gyfer gwresogi ardaloedd cymunedol er mwyn osgoi adeiladu diffyg ar y cyfrif gwresogi wrth gefn. Roedd hyn oherwydd bod prisiau wedi codi yn uwch na'r disgwyl pan gytunodd y Cabinet ar y ffioedd ym mis Mehefin 2018.

Mae'r tabl yn yr adroddiad yn nodi'r ffioedd gwresogi a argymhellwyd yn seiliedig ar wir ddefnydd yn 2017/18 a 2018/19, y rhagdybiad y byddai costau yn codi o 18% yn 2019/20, ac y byddai defnydd yn aros ar lefelau tebyg am y 12 mis nesaf. Byddai'r ffioedd newydd yn dod i rym ym mis Awst 2019 fel bod y cynnydd yng nghostau'r tenantiaid yn digwydd dros gyfnod hwy o amser.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y newidiadau i'r ffioedd gwresogi cyfredol yn adeiladau'r Cyngor sydd â systemau gwresogi cymunedol fel yr amlinellir yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo – bydd yr holl newidiadau yn dod i rym o 1 Awst 2019.

## 20. CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY 2018-2028

Cyflwynodd Thomas yr adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a llyfryn polisïau a gweithdrefnau.

Roedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn gynllun er mwyn i'r awdurdod lleol allu rheoli a gwella ei rwydwaith hawliau tramwy dros gyfnod 10 mlynedd. Mae'r ail Gynllun Gwella Hawliau Tramwy yn asesu rhwydwaith 2018 ac mae'n gwerthuso cynnydd a wnaed ers 2008. Mae'r cyd-destun polisi cyfredol yn cael ei archwilio, ardaloedd blaenoriaeth yn cael eu nodi ac mae Datganiad Gweithredu newydd yn cael ei gynnig.

Rhan o'r cynllun oedd llyfryn yn cynnwys cyfres o bolisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â Hawliau Tramwy.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r llyfryn polisïau a gweithdrefnau.

## 21. YMARFER PWERAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:

**Strydwedd a Chludiant**

- **Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint – A5104 Ffordd Corwen, Ffordd Y Rhos Treuddyn) (Terfyn Cyflymder 40mya a 50mya) 201x**
  Rhoi gwybod i Aelodau am wrthwynebiad a dderbyniwyd ar gyfer y terfyn cyflymder 40mya a 50mya arfaethedig ar A5104 Ffordd Corwen, Ffordd Y Rhos, Treuddyn.

**Tai ac Asedau**

- **Canolfan Gymunedol Ieuenctid Bistre, Trosglwyddiad Ased Cymunedol Bwcle o'r Adeilad a'r Ardal a Lesiwyd**
  Trosglwyddo Ased Cymunedol yr adeilad a'r tir cyfagos a adnabyddir fel Canolfan Gymunedol ac ieuenctid Bistre i'w ddatblygu i ddarparu adnoddau hyfforddi chwaraeon a hyfforddi dan do i'w defnyddio drwy gydol y flwyddyn, a chaffi. Bydd dosbarthiadau ffitrwydd penodol yn cael eu hychwanegu at ardaloedd cyfredol y neuadd pan na fydd partïon cyfredol yn eu defnyddio. Byddai hen ystafelloedd dosbarth yn cael eu troi i ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd addysg / briffio.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 ac 15 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 22. NEWYDD CATERING AND CLEANING LTD – ADOLYGIAD CYNNYDD A CHYNLLUN BUSNES DIWYGIEDIG CYNLLUN BUSNES AR GYFER 2019-2022

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin y cyflwyniad oedd yn rhoi manylion cynnydd NEWydd Catering and Cleaning Ltd hyd yma.

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cyfle i'r Cabinet adolygu sut roedd y trosglwyddiad i fusnes hyd braich wedi datblygu a chyfeiriad bwriedig y busnes dros y ddwy flynedd nesaf yn ystod cam nesaf y prosiect.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi cynnydd NEWydd Catering and Cleaning Limited yn ystod y flwyddyn gyntaf o fasnachu; a

(b) Bod y Cynllun Busnes ar gyfer dyfodol y gwasanaeth yn cael ei gefnogi a'i gymeradwyo.

## 23. CYNLLUN BUSNES BLYNYDDOL AURA

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad oedd yn cyflwyno adroddiad blynyddol Aura ac ymateb y Cyngor. Yn gyffredinol roedd amcanion a thargedau'r Cynllun Busnes wedi wynebu nifer o heriau cydfuddiannol er mwyn cynnal perfformiad dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol y Cynllun yn eu cyfarfod diweddar, a chafodd ei dderbyn yn gadarnhaol a chefnogwyd ymateb y Cyngor fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cynllun Busnes gydag Aura yn cael ei gefnogi a'i gymeradwyo gan nodi sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol.

## 24. MODEL TÂL A PHOLISI TÂL

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar gynnydd a wnaed ar waith adolygu modelu tâl ar gyfer cyflwyno ail flwyddyn o gytundeb tâl y Cyd Bwyllgor Cenedlaethol (NJC) )(2018/19 – 2019/20), a'r newidiadau a wnaed fel rhan o gynnal y Cytundeb Statws Sengl (2014).

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cynnydd a wnaed o ran mabwysiadu Model Polisi newydd yn cael ei groesawu, gan nodi'r camau gweithredu a gymerwyd wrth ddefnyddio'r awdurdod dirprwyedig i gytuno gyda'r Undebau Llafur, a rhoi'r Model newydd ar waith.

## 25. CYNLLUN BUSNES CARTREFI GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU 2019/2048

Ar ôl datgan cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd Banks yr ystafell cyn y drafodaeth.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad, gan egluro bod y Cynllun Busnes yn nodi elfennau allweddol Strategaeth Ddatblygu arfaethedig y

cwmni i gynyddu'r nifer o Eiddo Rhent Fforddiadwy i'w cyflawni dros y tair blynedd nesaf i 207 o unedau.

Roedd rhwymedigaeth ar Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru i geisio cymeradwyaeth y Cabinet o ran unrhyw Gynllun Busnes oedd yn darparu amcanion strategol y cwmni. Ar gyfer pob blwyddyn rhaid i'r cwmni gydymffurfio gyda, a gweithredu Cynllun Busnes gyda chymeradwyaeth o flaen llaw gan y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo Cynllun Busnes Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru 2019/2048; a

(b) Cymeradwyo bod y cynnydd mewn Benthyca Darbodus yn y dyfodol drwy'r Cyngor (hyd at uchafswm o £20 miliwn) ar gyfer benthyca ymlaen i Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru at bwrpas datblygu neu brynu tai fforddiadwy yn ddibynnol ar Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru yn bodloni paramedrau benthyca y cytunwyd arnynt.

## 26. MODEL YMDDIRIEDOLAETH THEATR CLWYD

Cyflwynodd y Cynghorydd Butler yr adroddiad oedd yn ystyried adolygiad amserol o'r opsiynau ar gyfer llywodraethu yn Theatr Clwyd.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod Bwrdd Llywodraethwyr Theatr Clwyd wedi cwrdd ar 4 Mehefin 2019 ac argymhellwyd model llywodraethu a ffefrir gyda throsglwyddiad yn barod ar gyfer cychwyn blwyddyn ariannol 2021/22. Cefnogwyd hyn gan yr Aelodau Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod argymhellion Bwrdd Llywodraethwyr Theatr Clwyd ar gyfer y model llywodraethu a ffefrir ar gyfer y dyfodol yn cael ei gefnogi; a

(b) Bod adroddiad llawn a therfynol ar ddiwydrwydd dyladwy ar gyfer y model a ffefrir yn dod yn ôl i'r Cabinet., er mwyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2019.

## 27. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol a dim un aelod o'r cyhoedd.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 11.35am)

…………………………
**Y Cadeirydd**